| **Amcanion Ymgynghorwyr 2025** | **Adroddiad cynnydd yn ystod 2025** |
|---|---|
| 1. I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa a cefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys cyngor yn dilyn y prisiad teirblynyddol fel yn briodol. | Cynnal adolygiad strategaeth fuddsoddi gyda chefnogaeth modelu atebolrwydd asedau, sydd wedi arwain at ddyraniad asedau strategol newydd yn cael ei gytuno gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys dyraniad newydd i gyfalaf naturiol. Ategwyd hyn gan gyngor ynghylch gweithredu'r strategaeth fuddsoddi wedi'i diweddaru, gan gynnwys gwerthiannau o ecwiti.<br><br>Darparwyd cyngor mewn perthynas ag opsiynau ecwiti *index-linked* a throsglwyddo i fandad newydd BlackRock.<br><br>Darparwyd cyngor mewn perthynas â dyraniad strategol y Gronfa i eiddo i lywio ymrwymiadau diwrnod 1 i eiddo masnachol y DU ac eiddo lleol y DU drwy raglenni PPC.<br><br>Darparwyd cyngor hefyd mewn perthynas ag ymrwymiadau rheolaidd i'w ddyraniadau marchnad breifat trwy raglenni PPC.<br><br>Roedd enillion y gronfa dros 12 mis (a 3 blynedd) hyd at 30 Medi 2025 yn 10.7% y flwyddyn (9.8% y flwyddyn). Mae'r ddau ffigwr yn 0.2% y flwyddyn y tu ôl i'r enillion meincnod dros y cyfnodau priodol. |
| 2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol. | Darparwyd cyngor i gadarnhau cyfansoddiad y gronfa gyfunol (ecwiti, bondiau ac arian parod) sydd wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddi mewn asedau marchnadoedd preifat (incwm). Bydd hyn yn cael ei dynnu i lawr dros gyfnod o flynyddoedd i ariannu ymrwymiadau buddsoddi newydd. |

| | |
|---|---|
| 3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn gost effeithiol fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru a diwygio gofynion pŵlio CPLlL. | Fel y nodwyd uchod, derbyniodd y Gronfa gyngor mewn perthynas â mandadau ecwiti ac eiddo PPC, ac mewn perthynas ag ymrwymiadau rheolaidd i ddyraniadau marchnad breifat trwy PPC.<br><br>Mae swyddogion wedi ymgysylltu â PPC ar gyfalaf naturiol i ddeall cynlluniau ac amserlenni PPC ar gyfer lawnsio cronfa newydd. Bydd swyddogion yn cyfrannu at y dyluniad i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Gronfa. Ar ddiwedd mis Medi, mae'r Gronfa wedi buddsoddi c73% o'i hasedau uniongyrchol mewn cronfeydd PPC. Disgwylir i hyn gynyddu i c78% pan fydd y buddsoddiadau eiddo presennol yn cael eu trosglwyddo i gronfa eiddo masnachol PPC DU. Yn ychwanegol, mae oddeutu c15% or asedau wedi eu buddsoddi mewn cronfeydd olrhain mynegai gyda BlackRock.<br><br>Yr unig fuddsoddiadau materol y tu allan i PPC a BlackRock yw mandadau ecwiti preifat a isadeiledd Partners, sy'n werth tua 6% o gyfanswm asedau'r Gronfa. Bydd y mandadau hyn yn cael eu caniatáu i redeg dros gyfnod o flynyddoedd gyda disgwyl i'r dosbarthiadau gael eu hail-fuddsoddi mewn cronfeydd PPC.<br><br>Mae Hymans yn ystyried costau trafodion fel rhan o weithredu eu cyngor.<br><br>Mae cyhoeddiadau a diweddariadau buddsoddi wedi'u rhannu gyda'r Gronfa heb gost.<br><br>Mae cyngor wedi ei ddarparu mewn perthynas â newidiadau i ffioedd UBS (er bod swyddogion wedi delio gyda UBS yn uniongyrchol). |
| 4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau a deddfwriaeth pensiwn perthnasol a chanllawiau arweiniol. | Mae'r holl drefniadau yn parhau i gydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| | Nid oes unrhyw newidiadau rheoleiddiol diweddar y bu angen i'r Gronfa fod yn ymwybodol ohonynt, heblaw am y newidiadau Addas ar gyfer y Dyfodol a fydd yn cael eu gweithredu o fis Ebrill 2026 ymlaen. |
| 5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol. | Derbyniodd y Gronfa hyfforddiant mewn perthynas â chyfalaf naturiol trwy PPC.<br><br>Ymgymerodd y Gronfa â gweithdy sero net a phrosiect alinio sero net i asesu rôl cyfalaf naturiol wrth gyflawni ei uchelgeisiau hinsawdd.<br><br>Roedd y Gronfa yn rhan o drafodaethau mewn cyfarfodydd a oedd yn trafod ystyriaethau cymdeithasol.<br><br>Darparodd Hymans adrodd risg CIPFA fel y gofynnwyd.<br><br>Mae datganiad strategaeth fuddsoddi'r Gronfa (ISS) i'w ddiweddaru i adlewyrchu'r strategaeth fuddsoddi wedi'i diweddaru a gofynion eraill sy'n gysylltiedig â pwlio. |
| 6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau’r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol. | Mae polisïau a chredoau'r Gronfa yn cael eu hadlewyrchu trwy gydol y cyngor buddsoddi a dderbynnir gan y Gronfa. |
| 7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. Bydd y gwasanaethau'n gymesur ac yn gystadleuol o ran costau o'u cymharu â cyfoedion. Dylai gwasanaethau gadw at gyllidebau y cytunwyd arnynt a bod yn dryloyw, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw. | Dilyniant amserol ar ôl ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd, er enghraifft, mewn perthynas ag amlygiad cyfalaf naturiol mewn mandadau eraill y Gronfa.<br><br>Cyngor ailgydbwyso amserol a dderbyniwyd yn Ch4.<br><br>Diweddariadau marchnad wythnosol a ddarperir heb gost yn ystod cyfnod o anwadalrwydd y farchnad yn Ch2. |

| | |
|---|---|
| | Mae ffioedd Hymans yn unol â grŵp cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer tasgau craidd penodol, a ffioedd costau amser ar gyfer tasgau ychwanegol.<br><br>Mae Hymans yn gosod cyllidebau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw lle bo'n bosibl.<br><br>Adborth gan Swyddogion yw bod papurau o ansawdd da, ond nid yw amseroedd cyflwyno bob amser yn unol â disgwyliadau'r Swyddogion. Yn benodol, cyflwynwyd y papur strategaeth ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd yn hwyrach na'r disgwyl.<br><br>Bydd Hymans yn adolygu cyfansoddiad y tîm i gyflwyno adnoddau ychwanegol. Bydd Hymans hefyd yn nodi cynllun gwaith ar gyfer 2026 gyda chyllidebau. |
| 8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi. | Hyfforddiant cyfalaf naturiol wedi ei ddarparu trwy PPC.<br><br>Ymgymerodd y Gronfa â gweithdy sero net a phrosiect alinio sero net i asesu rôl cyfalaf naturiol wrth gyflawni ei uchelgeisiau hinsawdd.<br><br>Mae Hymans yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel ar ddatblygiadau'r farchnad trwy gyflwyno'r adroddiadau perfformiad chwarterol. |
| 9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG a fydd yn arwain at sefydlu dyddiad targed sero net a chynllun gweithredu pontio hinsawdd sy'n nodi'r camau y bydd y Pwyllgor yn eu cymryd i leihau allyriadau carbon. | Mae Hymans yn parhau i ymgorffori ystyriaethau ESG a risg hinsawdd yn ei gyngor.<br><br>Mae'r Gronfa yn parhau i fonitro'r gofynion sy'n ymwneud â TCFD, mesur allyriadau carbon ar gyfer y portffolio a thargedau sero net. |

| | |
|---|---|
| | Fel y nodwyd uchod, cynhaliodd y Gronfa weithdy sero net ac asesiad aliniad sero net. Roedd hyn yn dangos y gefnogaeth y gallai dyraniad i gyfalaf naturiol ei ddarparu i gyflawni uchelgeisiau sero net y Gronfa. |
| 10. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr y pŵl. | Cydweithiodd Hymans ag actiwari'r Gronfa (hefyd Hymans) fel y bo'n briodol. Dros y flwyddyn, mae hyn wedi cynnwys darparu'r adolygiad strategaeth prisio actiwaraidd integredig a strategaeth fuddsoddi.<br><br>Rhannodd Hymans gwestiynau gyda'r Gronfa mewn perthynas â'r rheolwyr asedau a gyflwynodd yng nghyfarfodydd y Panel.<br><br>Mae Hymans yn gweithio gyda rheolwyr buddsoddi lle bo'n briodol ar gyfer adrodd perfformiad a rhagamcanu ymrwymiadau'r farchnad preifat i gefnogi rheoli llif arian yn effeithlon. |
| 11. Datblygu gwybodaeth y Pwyllgor o ymgynghoriad y llywodraeth ar ddyfodol y CPLlL a sut y bydd hyn yn effeithio ar weithrediad y Gronfa. | Rhoddodd Hymans wybodaeth i'r Gronfa ynglŷn ag ymgynghoriadau CPLlL dros 2025.<br><br>Derbyniodd y Gronfa gyngor yn unol â chyfuno disgwyliadau yn dilyn sawl ymgynghoriad. |